Cofnodion cyfarfod hybrid y **PWYLLGOR CYNLLUNIO** a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, nos Fercher, 19 Mawrth 2025, yn dilyn cyfarfod y Cyngor a'i ragflaenodd.

**PRESENNOL**

Y Cynghorydd D. Simmons (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr M. Blackwell, Mrs J. Butterfield YH MBE, S. Feeney, K.R. Jones, Mrs. D.L. King, B. Mellor, Ms V. Roberts, A.J. Rutherford ac A. Walker.

Hefyd yn bresennol

Mrs. E. Chard (Arsylwi)
A. R. James (Arsylwi)
Miss C.L. Williams
Mr. G.J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Mead – Dirprwy Glerc y Dref

## 54. YMDDIHEURIADAU

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Mrs M. Blakeley-Walker, Ms. J. McAlpine (Cadeirydd), W. Price a Ms R. Roberts.

## 55. DATGAN BUDDIANNAU

Gofynnodd Clerc y Dref / yr Is-gadeirydd a oedd gan yr aelodau unrhyw fuddiant personol a/neu fuddiant sy'n rhagfarnu i'w ddatgan yng nghyswllt unrhyw fusnes i'r ystyried ar yr agenda.

***PENDERFYNWYD*** *nad oedd unrhyw fuddiannau i'w datgan.*

## 56. CEISIADAU CYNLLUNIO

Ystyriodd yr aelodau y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd fel y dangosir isod a ***PHENDERFYNWYD*** *fel y nodir wrth y cais.*

**Nodyn 1:** Cynghorir yr Awdurdod Cynllunio Lleol fod Cyngor Tref y Rhyl yn dymuno datgan, ble bo'n briodol, y dylai fod yn ofynnol i'r holl geisiadau a restrir isod sy'n ymwneud â lleoliadau fel swyddfeydd, busnesau, siopau ac archfarchnadoedd osod arwyddion dwyieithog o amlygrwydd cydradd, i adlewyrchu natur ieithyddol ardal y Rhyl.

**Nodyn 2:** Mae Cyngor Tref y Rhyl a Chyngor Sir Ddinbych wedi cyhoeddi argyfwng hinsawdd yn ffurfiol yn ddiweddar ac felly byddai'n dymuno bod datblygwyr a'r Awdurdod Cynllunio yn cymryd camau i sicrhau bod yr holl geisiadau maint mawr yn y dyfodol yn uchafu'r defnydd o dechnolegau sy'n bodoli eisoes i leihau'r effaith negyddol ar yr hinsawdd.

| **RHESTR Y CEISIADAU CYNLLUNIO** | |
|---|---|
| 56.1 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** Premier Inn, 21 - 26 Rhodfa'r Gorllewin, Y Rhyl, Sir Ddinbych, LL18 1HE<br><br>**WARD:** Bodfor |

| | |
|---|---|
| | **CYNGHORWYR Y WARD**: Ms J. McAlpine<br>Sedd wag<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2025/0067<br><br>**DISGRIFIAD:** Newid bwyty'r gwesty'n ystafelloedd gwely ychwanegol ac ystafell fwyta i westeion y gwesty'n unig, ynghyd ag addasiadau i'r adeilad a gwaith cysylltiedig.<br><br>**YMGEISYDD:** Whitbread Plc<br><br>***PENDERFYNIAD****: Dim gwrthwynebiad* |
| 56.2 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** Marchnad y Frenhines, Stryd Sussex, Y Rhyl, Sir Ddinbych, LL18 1SE<br><br>**WARD:** Bodfor<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD**: Ms J. McAlpine<br>Sedd wag<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2025/0082<br><br>**DISGRIFIAD:** Arddangos arwyddion allanol<br><br>**YMGEISYDD:** Cyngor Sir Ddinbych<br><br>***PENDERFYNIAD****: Dim gwrthwynebiad* |
| 56.3 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** 3 Bythynnod Pen y Bryn, Morfa Cwybr, Y Rhyl, Sir Ddinbych, LL18 2YB<br><br>**WARD:** Derwen<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD**: Mrs. J. Chamberlain Jones<br>Mrs. E.M. Chard<br>Miss S. Roberts<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2025/0070<br><br>**DISGRIFIAD**: Adeiladu estyniad unllawr yng nghefn yr annedd<br><br>**YMGEISYDD:** Mr Cai Weightman<br><br>***PENDERFYNIAD****: Dim gwrthwynebiad* |
| 56.4 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** 66 Ffordd Rhuddlan, Y Rhyl, Sir Ddinbych<br><br>**WARD:** Derwen<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD**: Mrs. J. Chamberlain Jones<br>Mrs. E.M. Chard<br>Miss S. Roberts<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2025/0056 |

| | |
|---|---|
| | **DISGRIFIAD**: Addasiadau i'r to i newid yr atig yn ystafell a gwaith cysylltiedig<br><br>**YMGEISYDD:** Mr Joseph Lewis<br><br>***PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad* |

**57. DIWEDD Y CYFARFOD**

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes i'w trafod, cyhoeddodd y Cadeirydd ddiwedd y cyfarfod.

Llofnod: …………….…………

Dyddiad: ………………………...